# Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

## Adroddiad ar gyfer

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru.




Chwefror 2018

# Cynnwys


**1. Crynodeb Gweithredol ........ 1**
**2. Cyflwyniad ........ 5**
**3. Cefndir ........ 7**
**4. Adolygu Swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r ASB ........ 9**
Gweinidogion Cymru ........ 9
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd ........ 13
Hyrwyddo'r Cynllun ........ 17
Cyflenwi Sticeri ........ 19
**5. Adolygu Swyddogaethau Awdurdodau lleol ........ 20**
Pa mor gyfredol yw Sgoriau Hylendid Bwyd ........ 24
Cysondeb ........ 25
**6. Adolygu Gweithrediad y System Apelio ........ 28**
Hawl i ymateb ........ 29
Ceisiadau am Arolygiadau Ailsgorio ........ 30
**7. Gorfodi ........ 32**
**8. Effaith y Cynllun ........ 33**
Cydymffurfiaeth Busnes Bwyd ........ 33
Adroddiad Gwyddoniaeth y Prif Gynghorydd Gwyddonol ........ 36
**9. Ymwybyddiaeth defnyddwyr ac agweddau busnesau ........ 37**
**10. Datblygiadau yn y Dyfodol ........ 40**
Arddangos Sgoriau Ar-lein ........ 40
Datblygu'r wefan ........ 41
Ymwybyddiaeth defnyddwyr ........ 41
Alergenau Bwyd ........ 42
Gwarchodwyr Plant ........ 43
Rheoleiddio Ein Dyfodol ........ 43
**11. Casgliadau ........ 45**
**12. Argymhellion ........ 47**
**Atodiad 1: Camau mewn Ymateb i Argymhellion o Adolygiadau Cynharach ... 50**

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i adolygu gweithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru flwyddyn ar ôl ei weithredu, a phob tair blynedd wedi hynny. At hynny, mae dyletswydd ar yr ASB i adolygu'r system apelio bob blwyddyn. Mae'n rhaid gosod yr adroddiadau adolygu hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac anfon copi at Weinidogion Cymru. Paratowyd yr adroddiad hwn i fodloni gofynion y Ddeddf.

1.2 Cafodd yr adroddiad hwn ei baratoi i fodloni'r gofyniad i'r ASB gynnal adolygiad tair blynedd o weithrediad y Cynllun o 28 Tachwedd 2014 i 27 Tachwedd 2017, ac adolygiad blynyddol pellach o weithrediad y system apelio hyd at 27 Tachwedd 2017.

1.3 Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o weithrediad y Cynllun a sut y mae Gweiniodogion Cymru, yr ASB ac awdurdodau lleol i gefnogi wedi ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr ymgysylltiad â busnesau bwyd a defnyddwyr, yn ogystal â diweddariad ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiadau blaenorol.

1.4 Mae'r adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o ymrwymiad Gweinidogion Cymru a'r ASB i gefnogi proses effeithiol a chyson o weithredu'r Cynllun yng Nghymru. Mae hefyd yn cadarnhau bod yr ASB yn cyflawni ei swyddogaethau fel sydd wedi'i amlinellu yn y ddeddfwriaeth. Mae newidiadau i'r Cynllun, a gyflwynwyd dros y tair blynedd diwethaf, wedi gwella mynediad defnyddwyr at sgoriau ar y pwynt archebu bwyd. Mae'r newidiadau hyn hefyd wedi galluogi sefydliadau sy'n ymwneud â chaffael bwyd, a sefydliadau eraill, i ddefnyddio ac elwa ar yr wybodaeth am sgoriau sy'n cael ei chyhoeddi. Mae hyn wedi sicrhau llwyddiant parhaus y Cynllun.

1.5 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod busnesau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, gan gynhyrchu sgoriau trwy arolygiadau hylendid bwyd sydd wedi'u rhaglennu. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn dangos gwelliannau cyffredinol wrth gyflwyno ymyriadau cynlluniedig yng Nghymru gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg. Mae'r adroddiad yn egluro sut mae awdurdodau lleol yn gweithio i fodloni eu rhwymedigaethau statudol tra hefyd yn sicrhau bod gwasanaeth cyfredol a theg. Bydd canfyddiadau rhaglen archwilio â ffocws gan yr ASB i wirio sut mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu rhwymedigaethau yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2018.

1.6 Dangosodd yr adolygiad o weithrediad y system apelio, rhwng 28 Tachwedd 2016 a 27 Tachwedd 2017, bod awdurdodau lleol yng Nghymru, i raddau helaeth, yn gweithredu'r Cynllun yn unol â'r Ddeddf a chanllawiau statudol. Dim ond pedwar o’r 100 o apeliadau a gyflwynwyd a bennwyd y tu allan i'r cyfnod o 21 diwrnod, a daeth pob un i ben o fewn 25 diwrnod. Cyflwynwyd apeliadau yn erbyn sgoriau mewn llai na 2% o'r busnesau bwyd a sgoriwyd. O'r rhain, nid oedd 84% yn llwyddiannus, gyda dim ond 16% yn arwain at newidiadau i sgoriau hylendid bwyd.

1.7 Mae gorfodaeth i arddangos sgoriau hylendd wedi bod yn llwyddiant yng Nghymru. Mae busnesau sydd â sgôr o 5 (da iawn) wedi cynyddu 21 pwynt canran, mae gan 95% o fusnesau sgôr o 3 (boddhaol ar y cyfan) neu uwch ac mae cyfraddau arddangos wedi cynyddu 16 pwynt canran, i 84% yn 2017, a hynny ar draws pob sgôr. Mae adnabyddiaeth defnyddwyr yn dal i gynyddu, gydag 89% yn adnabod delweddau o'r sgoriau yn 2016 o'i gymharu â 76% yn 2014 a 43% yn 2012. Mae'r ymchwil yn cynnig tystiolaeth gadarn i nodi bod arddangos gorfodol wedi arwain at wella a chynnal cydymffurfiaeth busnesau bwyd â diogelwch bwyd ac wedi cynnig mwy o dryloywder i ddefnyddwyr yng Nghymru.

1.8 Mae'n bwysig bod sgoriau yn gyfoes a’u bod yn cael eu dyfarnu’n gyson er mwyn sicrhau tegwch ac er mwyn cynnal hyder yn y Cynllun. Mae'r gwaith dadansoddi a gynhaliwyd gan yr ASB yn dangos bod busnesau a oedd yn cydymffurfio i raddau llai yn cael eu harolygu'n amlach, a bod bron i hanner y busnesau sydd wedi'u sgorio yng Nghymru wedi'u harolygu o fewn y 12 mis diwethaf[1]. Roedd y sgoriau hylendid bwyd a oedd yn hŷn na 12 mis yn peri pryder i rai defnyddwyr sy'n disgwyl i sgoriau adlewyrchu'r safonau hylendid cyfredol. Mae'r adroddiad yn amlygu rôl yr ASB o ran hwyluso ac ariannu gweithgareddau a hyfforddiant cysondeb. Mae lefelau cymryd rhan awdurdodau lleol mewn ymarferion cysondeb wedi bod yn uchel, ac mae canlyniadau wedi dangos bod awdurdodau lleol yng Nghymru, yn gyffredinol, yn gyson wrth roi'r sgoriau ar waith, er bod cysondeb yn her barhaus.

1.9 Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod meysydd allweddol o ran datblygiadau polisi a fframwaith rheoleiddio; mwy o ddefnydd o wasanaethau digidol a'r angen i ddarparu ar gyfer y rheiny ag alergeddau bwyd. Mae'r adroddiad yn cydnabod yr angen i ystyried effaith tirluniau polisi a rheoleiddio ar y Cynllun, ac yn nodi meysydd y mae gofyn gweithio arnynt ymhellach er mwyn sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at wybodaeth ystyrlon.

1.10 Mae awdurdodau lleol yn hynod ymrwymedig i gynnal y Cynllun ac yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gredadwy, yn gyfredol ac yn deg i bob busnes bwyd yng Nghymru. Ar y cyfan, mae awdurdodau lleol yn cynnal y Cynllun yn unol â gofynion a chanllawiau cyfreithiol, er gwaethaf pwysau ar adnoddau. Mae angen ystyried cynaliadwyedd y Cynllun yn ofalus, a hynny yn wyneb gostyngiad yn adnoddau awdurdodau lleol. Bydd yr ASB yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i archwilio sut y gellir sicrhau dyfodol y Cynllun.

[11] Caiff amlder lleiaf arolygiadau ei bennu gan y cynllun sgorio risg ymyrryd o fewn Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). Gall amlderau arolygu amrywio o chwe mis i unwaith bob tair blynedd.

1.11 Mae'r adolygiad hwn wedi nodi 14 o argymhellion ar weithrediad parhaus y Cynllun yng Nghymru.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Daeth y Ddeddf[2] i rym ar 28 Tachwedd 2013. Sefydlodd y Ddeddf Gynllun statudol sy'n rhoi ffordd gyflym a hawdd i ddefnyddwyr gael gwybodaeth am y safonau hylendid mewn busnesau bwyd. Mae awdurdodau lleol yn pennu sgoriau hylendid bwyd yn dilyn arolygiadau i wirio cydymffurfiaeth busnesau bwyd â chyfreithiau hylendid bwyd. Mae busnesau bwyd yn cael sgôr o 0 (angen gwella ar frys) i 5 (da iawn) sy'n adlewyrchu safonau hylendid y busnes adeg yr arolygiad.

2.2 Mae'n rhaid arddangos sgoriau hylendid bwyd gan ddefnyddio sticer rhagnodedig wrth fynedfeydd cwsmeriaid i sefydliadau bwyd. Lle nad oes mynedfeydd e.e. stondinau marchnad, mae'n rhaid arddangos y sticer mewn lle amlwg lle gall cwsmeriaid ei weld. Mae sgoriau hefyd ar gael ar wefan yr ASB[3]. Yn ogystal, mae'n ofynnol i fusnesau sy'n darparu bwyd tecawê ddarparu gwybodaeth ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd penodol sy'n cyfeirio defnyddwyr at wefan y Cynllun.

2.3 Mae'r Cynllun yn rhoi grym i ddefnyddwyr, ac yn eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus o ran ble maent yn bwyta ac yn prynu bwyd. Gall defnyddwyr ddefnyddio'r wybodaeth i ddewis y sefydliadau bwyd hynny sydd â'r sgoriau uchaf. Mae hyn yn cynnig cymhelliant i fusnesau wella eu safonau hylendid.

2.4 Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr ASB, gan gynnwys cynnal adolygiad o weithrediad y Cynllun flwyddyn ar ôl ei weithredu, gydag adolygiadau pellach bob tair blynedd. At hynny, mae dyletswydd ar yr ASB i adolygu'r system apelio bob blwyddyn. Mae'n rhaid gosod yr adroddiadau adolygu hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac anfon copi at Weinidogion Cymru.

[2] Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/2/contents/enacted/welsh
[3] Gwefan Sgoriau Hylendid Bwyd: www.food.gov.uk/sgoriau

2.5 Cafodd yr adolygiad cyntaf – Adolygu'r Broses o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio – ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2015[4]. Cyhoeddwyd adroddiad cysylltiedig sy'n darparu diweddariad ystadegol mewn perthynas â mudo, sgoriau, a cheisiadau am arolygiadau ail-sgorio ac apeliadau ym mis Awst 2015[5]. Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol dilynol ar Weithrediad y System Apelio ym mis Chwefror 2016[6] a mis Chwefror 2017[7].

2.6 Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i fodloni gofynion y Ddeddf ac mae'n darparu diweddariad ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiadau blaenorol.

[4]Adolygu'r Broses o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio, Chwefror 2015: http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10113%20-a%20report%20for%20the%20national%20assembly%20for%20wales%20review%20of%20the%20implementation%20and%20operation%20of%20the%20statutory%20food/gen-ld10113-w.pdf

[5]Gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru, Awst 2015: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/FHRS%20Blwyddyn%201%20Diweddariad%20ar%20yr%20Adroddiad%20Terfynol.pdf

[6]Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru – Adolygu'r System Apelio, Chwefror 2016: http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10597/gen-ld10597-w.pdf

[7] Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru – Adolygu'r System Apelio, Chwefror 2017: http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/AGR-LD10952/AGR-LD10952-w.pdf

# 3. Cefndir

3.1 Roedd y Ddeddf a Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013[8] (Rheoliadau 2013) yn pennu gofynion cychwynnol y Cynllun. Pan lansiwyd y Cynllun statudol ym mis Tachwedd 2013, roedd yn berthnasol i bob sefydliad a oedd yn cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, ar yr amod nad oeddent wedi'u heithrio gan Reoliadau 2013.

3.2 Ym mis Tachwedd 2014, estynnwyd cwmpas y Cynllun gan Orchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2) 2014[9] i gynnwys sefydliadau bwyd a oedd yn masnachu o fusnes i fusnes, er enghraifft cynhyrchwyr a phecynnwyr bwyd. Ym mis Tachwedd 2016, datblygwyd y Cynllun ymhellach drwy gyflwyno Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016[10] (Rheoliadau 2016). Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd tecawê gyhoeddi datganiad dwyieithog ar rai deunyddiau cyhoeddusrwydd copi caled, sy'n cyfeirio defnyddwyr at y wefan sgorio hylendid bwyd.

3.3 Mae'r ASB a Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau statudol[11] ar y Cynllun ar y cyd ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

3.4 Mae'r ddeddfwriaeth yn creu nifer o droseddau, gan gynnwys nifer yn ymwneud â methu ag arddangos sticer hylendid bwyd dilys, methu â darparu gwybodaeth am sgôr ar lafar ar gais, a methu â dangos y datganiad angenrheidiol ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd perthnasol. Mae

[8] Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/2903/contents/made/welsh
[9] Gorchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2) 2014: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2014/3089/made/welsh
[10] Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/429/contents/made/welsh
[11] Canllawiau Statudol: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/welsh/canllawiau-awdurdodaubwyd-cshb2013.pdf

darpariaeth ar gyfer delio â'r troseddau hyn trwy ddefnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig yn lle erlyn. Cyflwynodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[12] ddarpariaeth i'r Ddeddf sy'n galluogi awdurdodau lleol i gadw derbynebau cosb benodedig ar gyfer gorfodi'r ddeddfwriaeth.

3.5 Yn 2016, lansiodd Gogledd Iwerddon ei Gynllun statudol ei hun a ddaeth i rym ar 7 Hydref. Mae'r ASB hefyd wedi cadarnhau ei chynlluniau i archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno Cynllun gorfodol yn Lloegr.

[12] Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh?view=plain

# 4. Adolygu Swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r ASB

4.1 Yn ogystal â gosod rhwymedigaethau ar fusnesau bwyd, mae'r ddeddfwriaeth sgorio hylendid bwyd yn gosod nifer o swyddogaethau ar gyfer Gweinidogion Cymru, yr ASB ac awdurdodau lleol. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn manylu ar sut mae Gweinidogion Cymru a'r ASB wedi gweithredu'r swyddogaethau hyn.

## Gweinidogion Cymru

4.2 Mae grymoedd Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf yn cynnwys:

*Gallant, drwy reoliadau –*

***2. (6)*** *(a) diwygio'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd, gan gynnwys ehangu'r categori o sefydliad a fydd yn ddarostyngedig i raglen arolygiadau;*
*(b) diwygio'r diffiniad o awdurdod bwyd (er enghraifft, i gynnwys cyrff eraill).*

4.3 Ers cyflwyno'r Ddeddf, nid yw Gweinidogion Cymru wedi ystyried ei bod yn angenrheidiol i ddiwygio'r diffiniad o 'sefydliad busnes bwyd' neu 'awdurdod bwyd'.

***3. (5)*** *Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi bod categorïau penodol o sefydliad yn cael bod yn esempt rhag cael eu sgorio.*

4.4 Mae Rheoliadau 2013 yn manylu ar y meini prawf ar gyfer eithrio (neu esemptio yn ôl y Ddeddf) sefydliadau bwyd rhag cael eu sgorio. Mae sefydliadau bwyd lle nad gwerthu bwyd yw prif weithgarwch y busnes, ac mae unrhyw fwyd a ddarperir wedi'i becynnu ymlaen llaw ac yn silff sefydlog ar dymheredd ystafell wedi'u heithrio.

4.5 Mae'r eithriad hefyd yn cynnwys sefydliadau sy'n aneddau preifat ac a ddefnyddir gan warchodwyr plant a gofalwyr oedolion, lle darperir gwasanaethau yn y cartref fel rhan o uned deuluol.

4.6 Ers cyflwyno'r Cynllun, mae gwelliannau wedi'u cyflwyno i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Bellach, mae gofyn i unigolyn gofrestru fel gwarchodwr plant os yw'n gwarchod un neu fwy o blant o dan 12 oed ar safle domestig am wobr. Cyn hynny, 8 oed oedd yr oedran perthnasol. Mae gofyn diwygio Rheoliadau 2013 i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

**ARGYMHELLIAD 1:** Diwygio Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 i adlewyrchu newidiadau i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

***5.*** (8) *Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu ar gyfer apêl o dan yr adran hon gael ei phenderfynu gan berson ac eithrio'r awdurdod bwyd.*

4.7 Nid yw Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno rheoliadau sy'n darparu y gall apeliadau gael eu pennu gan berson ar wahân i'r awdurdod bwyd. Mae'r ASB wedi cynnal adolygiadau o weithrediad system apelio'r Cynllun Sgorio ym mis Mai 2015, mis Chwefror 2016, a mis Chwefror 2017. Mae'r adolygiadau wedi canfod bod apeliadau'n cael eu pennu gan awdurdodau lleol yn wrthrychol ac yn unol â'r Ddeddf a chanllawiau statudol. Mae adolygiad pellach o weithrediad y system apelio wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

***10. (1)*** *Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch hyrwyddo sgôr hylendid bwyd sefydliad busnes bwyd –*

*(a) gan weithredwr y sefydliad;*

*(b) gan berson sy'n gweithredu ar ran y gweithredwr*

4.8 Ym mis Tachwedd 2016, cafoddd Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016 eu pasio gan Weinidogion

Cymru i wella'r Cynllun ymhellach. Cyflwynodd Rheoliadau 2016 ofynion ar gyfer busnesau bwyd tecawê i gynnwys datganiad dwyieithog ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd penodol i gyfeirio defnyddwyr at wefan y Cynllun Sgorio. Caiff deunyddiau cyhoeddusrwydd eu diffinio yn y Rheoliadau fel unrhyw ddeunydd printiedig sy'n hyrwyddo'r bwyd tecawê ac sy'n cynnwys ei bris ynghyd â disgrifiad o sut y gellir archebu ar wahân i wyneb-yn-wyneb. Mae'r datganiad hefyd yn annog defnyddwyr i ofyn am sgoriau hylendid bwyd wrth archebu. O dan y Rheoliadau, efallai y bydd busnesau bwyd hefyd yn dewis arddangos sgôr y sefydliad ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd.

***23.*** *Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau –*

*(a) i'r ASB;*

*(b) i awdurdod bwyd,*

*mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.*

4.9 Gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn 2014 fe gynhyrchodd yr ASB ganllawiau statudol i awdurdodau lleol ar weithredu'r Cynllun. Yn 2017, adolygodd yr ASB a Llywodraeth Cymru y canllawiau, mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol. Cafodd y canllawiau eu diwygio wedi hynny i gymryd i ystyriaeth Rheoliadau 2016 sy'n mynnu bod busnesau tecawê yn cynnwys datganiad dwyieithog ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd copi caled penodol. Yn ogystal, mae'r canllawiau wedi'u diweddaru i ddarparu eglurhad pellach ar ddehongli rhywfaint o fanylion technegol y Cynllun. Cafodd adran a oedd yn trafod y trefniadau pontio wrth sefydlu'r Cynllun ei dileu hefyd. Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y canllawiau diwygiedig i'w cyhoeddi ym mis Medi 2017.

***24.*** *Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon sy'n pennu cyfnod pryd y mae'n rhaid gwneud rhywbeth drwy roi cyfnod arall yn ei le.*

4.10 Mae nifer o gyfnodau penodedig wedi'u gosod yn y Ddeddf i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol. Mae'r rhain yn ymwneud â

darparu gwybodaeth i fusnesau newydd, hysbysu a chyhoeddi sgoriau, ceisiadau ail-sgorio, apeliadau ac adolygiadau statudol. Ers cyflwyno'r Cynllun, nid oes unrhyw argymhellion wedi codi o adolygiadau blaenorol i ddiwygio'r cyfnodau penodedig.

***27. (2)*** *Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn i'w wneud gan Weinidogion Cymru*

4.11 Defnyddiodd Gweinidogion Cymru y grym hwn i weithredu'r Ddeddf mewn perthynas â sefydliadau sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr ar 28 Tachwedd 2013.

4.12 Ym mis Tachwedd 2014, gweithredodd Gweinidogion Cymru Orchymyn Cychwyn i ddod â'r Ddeddf i rym mewn perthynas â sefydliadau sy'n cyflenwi bwyd i fusnesau eraill. Mae hyn yn rhoi mwy o hyder i ddefnyddwyr, a hefyd i fusnesau a all ddefnyddio'r wybodaeth i gael sicrwydd ar safonau hylendid bwyd wrth ddewis eu cyflenwyr.

4.13 Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y graddau y defnyddir gwybodaeth sgorio hylendid bwyd. Yng Nghymru, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, yn defnyddio pŵer prynu cyfunol y sector cyhoeddus i sicrhau gwerth am arian wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys bwyd. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ystyried Sgoriau Hylendid Bwyd wrth fonitro cyflenwyr yn barhaus.

**Atodlen (adran 21) – Rhan 1**

*(3) Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi swm gwahanol ar gyfer y gosb neu'r gosb ostyngol.*

4.14 Nid yw'r gosb o £200, sy'n gostwng i £150 am daliad cynnar o fewn 14 diwrnod, wedi newid.

4.15 Yn wreiddiol, roedd y Ddeddf yn gofyn i dderbynebau Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau sgorio hylendid bwyd gael eu dychwelyd i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ddiwygiad sy'n galluogi awdurdodau lleol i gadw'r derbynebau hyn i gefnogi gweithgareddau mewn perthynas â gorfodi'r Ddeddf. Daeth y diwygiad hwn i rym ym mis Hydref 2017, ac felly, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y newid hwn.

**ARGYMHELLIAD 2:** Bod yr ASB yn gwerthuso effaith y diwygiad i'r Cynllun a gyflwynwyd gan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mewn perthynas â chadw derbynebau Hysbysiadau Cosb Benodedig, ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn.

## Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

4.16 Mae gan yr ASB rôl allweddol o ran cefnogi awdurdodau lleol wrth weithredu'r Cynllun yn effeithiol. Mae'r Ddeddf yn gosod y dyletswyddau canlynol ar yr ASB: -

***6. (3)*** *Rhaid i'r ASB gyhoeddi'r sgôr hylendid bwyd ac unrhyw wybodaeth arall a ragnodir ar ei gwefan cyn pen 7 o ddiwrnodau ar ôl cael ei hysbysu o dan is-adran (1).*

4.17 Mae gan yr ASB drefniadau cadarn, awtomataidd ar waith ar gyfer cyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ar-lein drwy www.food.gov.uk/sgoriau. Mae'r rhain yn cynnwys llwyfan TG, sy'n cynnwys cronfa ddata ganolog ar gyfer storio data ar fusnesau bwyd sy'n cael ei lanlwytho gan awdurdodau lleol; porth sy'n galluogi awdurdodau lleol i adolygu a dilysu ei ddata a lanlwytho gwybodaeth na chaiff ei chasglu drwy brosesau awtomataidd, gwefan gyhoeddus a chyfleuster adrodd sy'n golygu bod modd cynhyrchu adroddiadau rheoli.

4.18 Mae dogfen fanwl ar gyfer defnyddwyr sy'n cynnwys cyngor ar faterion technegol ac agweddau ymarferol ar ddefnyddio'r platfform TG hefyd wedi'i chyhoeddi.

4.19 Mae dyluniad ac ymarferoldeb y llwyfan TG yn galluogi'r ASB i gyflawni ei rhwymedigaeth yn effeithiol i gyhoeddi gwybodaeth am sgoriau ar ei gwefan o fewn y cyfnod penodedig.

> ***11. (3)*** *Rhaid i awdurdod bwyd anfon unrhyw sylwadaethau o'r fath ymlaen at yr ASB a gaiff gyhoeddi'r sylwadaethau ar ei gwefan ynghyd â'r sgôr hylendid bwyd y mae'r sylwadaethau yn ymwneud â hi.*

4.20 Un o'r mesurau diogelu ar gyfer busnesau o dan y Ddeddf yw'r 'hawl i ymateb', sy'n rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau ar sgôr a rhoi esboniad o unrhyw gamau a gymerwyd ers i'r sgôr gael ei dyfarnu. Rhaid cyflwyno'r sylwadau 'hawl i ymateb' yn ysgrifenedig i'r awdurdod lleol perthnasol i'w hadolygu cyn iddynt gael eu hanfon at yr ASB i'w cyhoeddi ar wefan y Cynllun.

4.21 Cyhoeddwyd sylwadau 'hawl i ymateb' ar wefan y cynllun sgorio ar wyth achlysur rhwng 28 Tachwedd 2014 a 27 Tachwedd 2015, 10 achlysur rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016 ac 11 achlysur rhwng 28 Tachwedd 2016 a 27 Tachwedd 2017.

4.22 Mae'r rhan fwyaf o ddyletswyddau'r ASB mewn perthynas â'r Cynllun wedi'u hamlinellu yn adran 14 y Ddeddf fel a ganlyn: -

> ***14. (1)*** *Rhaid i'r ASB -*
> *(a) wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, roi sylw i'r canllawiau a*
> *(b) ddyroddir gan Weinidogion Cymru;*
> *(c) cyhoeddi'r materion y mae rhaid i awdurdod bwyd roi sylw iddynt wrth lunio ac adolygu rhaglen arolygu o dan adran 2 (pan fo'r materion hynny wedi eu*

*(d) cymeradwyo gan Weinidogion Cymru);*

*(e) cyhoeddi'r meini prawf sgorio a ddefnyddir i roi sgôr hylendid bwyd o dan adran 3;*

*(f) ar ddiwedd cyfnod o 1 flwyddyn sy'n dechrau pan fydd y cynllun yn cychwyn, a phob cyfnod dilynol o 1 flwyddyn, gynnal adolygiad o weithrediad y system*

*(g) apelau a sefydlir o dan adran 5 yn ystod y cyfnod hwnnw;*

*(h) ar ddiwedd cyfnod o 1 flwyddyn sy'n dechrau pan fydd y cynllun yn dechrau, a phob cyfnod dilynol o 3 blynedd, adolygu fel arall sut y rhoddwyd ar waith y cynllun sgorio bwyd a sefydlwyd o dan y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod hwnnw a sut y bu iddo gael ei weithredu;*

*(i) gwneud argymhellion i awdurdodau bwyd i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'u*

*(j) cyfrifoldebau o dan y cynllun;*

*(k) hybu'r cynllun i sefydliadau busnes bwyd a defnyddwyr yng Nghymru;*

*(l) darparu sticeri sgôr hylendid bwyd ar y ffurf ragnodedig i awdurdodau bwyd yn ddi-dâl.*

***(2)** Heb fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae adolygiad o dan is-adran (1) (d) yn ymwneud ag ef, rhaid i'r ASB osod adroddiad gerbon Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys:*

*(a) manylion am yr adolygiad a ymgymerwyd ag ef;*

*(b) yr argymhellion dros newid, os oes rhai, i'r system apelau y gwêl eu bod yn*

*(c) briodol a'i resymau dros ddod at y casgliad hwnnw.*

***(3)** Heb fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae adolygiad o dan is-adran (1) (e) yn ymwneud ag ef, rhaid i'r ASB osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys:*

*(a) manylion am yr adolygiad yr ymgymerwyd ag ef;*

*(b) yr argymhellion dros newid, os oes rhai, i'r cynllun sgorio hylendid bwyd y gwêl eu bod yn briodol a'i resymau dros ddod at y casgliad hwnnw.*

***(4)*** *Rhaid i’r ASB anfon copi o bob adroddiad a lunnir o dan yr adran hon at Weinidogion Cymru.*

4.23 Wrth gyflawni ei chyfrifoldebau o dan y Ddeddf, mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yr ASB (Cymru) (y Cod), yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar baratoi ac adolygu eu rhaglenni ymyrryd mewn perthynas â hylendid bwyd. Mae'r Cod yn amlinellu meini prawf sgorio risg ar gyfer pennu amlder ymyrryd, sy'n ystyried y peryglon posibl a lefelau cydymffurfio mewn sefydliad bwyd.

4.24 Mae'r canllawiau statudol yn rhoi cyngor manylach i awdurdodau lleol, gan gynnwys disgrifiadau i'w helpu i roi sgoriau hylendid bwyd ar waith yn gyson. Yn 2017, cafodd y canllawiau eu hadolygu a'r disgrifiadau eu datblygu ymhellach er mwyn helpu i sicrhau bod sgoriau'n cael eu dyfarnu'n gyson. Cafodd y Cod ei adolygu yn 2017 hefyd, ac mae’r newidiadau arfaethedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cyngor wedi'i ddiweddaru ac eglurhad ychwanegol o ddisgrifwyr risg.

4.25 Cyhoeddwyd yr Adolygiad cyntaf o'r broses o Weithredu'r Cynllun a'r System Apelio ym mis Chwefror 2015. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad:

- Bod cydymffurfiaeth busnesau bwyd â chyfraith diogelwch bwyd wedi cynyddu ers cyflwyno’r Cynllun statudol, ac mae tystiolaeth i ddangos bod y Cynllun wedi bod yn sbardun o ran codi safonau hylendid bwyd.
- Roedd cysondeb yn y modd y cafodd y Cynllun statudol ei weithredu ledled Cymru wedi cael ei hwyluso ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, yr ASB a Llywodraeth Cymru.
- Roedd ymwybyddiaeth a defnydd defnyddwyr o’r cynllun wedi cynyddu.

4.26 Roedd naw argymhelliad yn codi o'r adolygiad, sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1, ynghyd â'r camau sydd wedi’u cymryd i fynd i'r afael â nhw.

4.27 Adolygodd yr ASB weithrediad y system apelio hefyd yn 2016 a 2017. Daeth yr adolygiadau i'r casgliad bod cyfradd yr apeliadau yn erbyn sgoriau yn isel, cyfartaledd o 1.9% rhwng y ddwy flynedd. Ar y cyfan, roedd apeliadau wedi'u pennu yn unol â gofynion deddfwriaethol, a bod 16% o'r apeliadau ar gyfartaledd wedi arwain at newidiadau mewn sgoriau hylendid bwyd yn y ddwy flynedd.

4.28 Roedd saith o argymhellion yn deillio o'r adolygiadau hyn sydd hefyd wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1, ynghyd â'r camau a gymerwyd.

4.29 Cwblhawyd yr holl adroddiadau o fewn yr amserlenni a osodwyd yn y Ddeddf, a chawsant eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a darparwyd copïau i Weinidogion Cymru.

## Hyrwyddo'r Cynllun

4.30 Mae Cynllun Strategol yr ASB 2015-2020 Bwyd y Gallwn Ymddiried Ynddo13, yn cydnabod llwyddiant y Cynllun a'r buddion y mae'n eu darparu i ddefnyddwyr. Mae'r ASB wedi bod yn rhagweithiol, ac yn parhau i fod yn rhagweithiol, gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a gweithgareddau i hyrwyddo'r Cynllun yn rheolaidd i fusnesau bwyd a defnyddwyr yng Nghymru. Mae digwyddiadau cenedlaethol fel yr Eisteddfod, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a gemau chwaraeon rhyngwladol, ac achlysuron fel y Nadolig, Dydd Sant Ffolant a Dydd Mawrth Ynyd fel ffocws ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo.


4.31 Nod ymgyrchoedd Nadolig y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn 2015 a 2017 oedd atgoffa defnyddwyr i ddefnyddio'r Cynllun wrth fwyta dros gyfnod yr ŵyl, a thargedu'r rheiny a oedd yn trefnu partïon Nadolig. Roedd y gweithgarwch cyfathrebu yn cynnwys datganiadau i'r wasg, erthyglau hysbysebu (advertorials) a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasu. Cafodd pecynnau

[13] Cynllun Strategol yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2015-20: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/Cynllun%20Strategol%202015-20%20%28Mehefin%202015%29_0.pdf

cyfathrebu eu datblygu a'u rhannu ag awdurdodau lleol hefyd, gan arwain at eitemau yn y wasg ranbarthol.

4.32 Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2015 a 2016, comisiynodd yr ASB weithgarwch pellach gan ganolbwyntio ar ddiwrnodau Santes Dwynwen a Sant Ffolant i ategu neges y Cynllun o 'gymryd cip cyn bachu bwrdd', ac annog defnyddwyr i wirio'r sgôr hylendid bwyd cyn bwyta allan. Roedd yr ymgyrchoedd hyn yn targedu defnyddwyr iau ac yn cynnwys erthyglau ar-lein a chyfweliadau teledu. Dangosodd gwerthusiad o gyrhaeddiad ymgyrch 2016 gynnydd yn nifer yr ymweliadau â'r wefan sgoriau yn y cyfnod yn arwain at Ddydd Sant Ffolant.

4.33 Mae rhagor o wybodaeth am ymgyrchoedd yr ASB ar gyfer hyrwyddo'r Cynllun ar gael ar-lein drwy: https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/newyddiondatgan/ymgyrchoedd/dewiswch-yn-ddoeth-ar-gyfer-dydd-san-ffolant




4.34 Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasu i annog defnyddwyr i 'gymryd cip cyn bachu bwrdd', defnyddio gwefan y Cynllun Sgorio, 'chwilio am y sticer gwyrdd a du' a 'rhoi gwybod os na allwch chi weld y sticer'.

4.35 Mae'r daflen 'Mae'n dod yn haws gweld hylendid bwyd da yng Nghymru'[14] wedi'i hanelu at fusnesau bwyd yng Nghymru, ac yn darparu gwybodaeth am y Cynllun, sut mae'n gweithio a chyfrifoldebau gweithredwyr busnesau bwyd o dan y Ddeddf. Mae'r daflen ar gael i'w harchebu gan awdurdodau lleol i'w defnyddio gan eu swyddogion wrth hyrwyddo'r Cynllun. Mae hi hefyd wedi'i chyhoeddi ar wefan yr ASB. Mae'r daflen wedi cael ei diweddaru ddwywaith ers i'r Ddeddf ddod i rym i adlewyrchu'r broses o ymestyn y Cynllun i fusnesau sy'n gwerthu bwyd i fusnesau eraill, a'r gofyniad i fusnesau sy'n darparu bwyd tecawê gyfeirio defnyddwyr at wybodaeth am sgoriau yn eu deunyddiau cyhoeddusrwydd.

## Cyflenwi Sticeri

4.36 Mae'r ASB yn parhau i ddarparu sticeri sgôr hylendid bwyd yn rhad ac am ddim i awdurdodau lleol trwy ganolfan gyhoeddiadau trydydd parti. Mae gwybodaeth am y broses archebu wedi'i chynnwys yn y canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol.

[14] Mae'n dod yn haws adnabod hylendid bwyd da yng Nghymru: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/welsh/taflen-busnesau.pdf

## 5. Adolygu Swyddogaethau Awdurdodau lleol


5.1 Mae awdurdodau lleol, y cyfeirir atynt fel awdurdodau bwyd yn y Ddeddf, yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth busnesau â'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cynllun yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd fel rhan o raglen er mwyn cynhyrchu sgoriau. Mae'r materion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth baratoi ac adolygu eu rhaglenni arolygu wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf, fel a ganlyn:

> ***2.*** *(1) Rhaid i awdurdod bwyd lunio, ac adolygu, rhaglen sy'n pennu —*
>
> *(a) a oes rhaid i sefydliad busnes bwyd yn ei ardal gael ei arolygu, a*
>
> *(b) ) os oes angen arolygiad, mynychder yr arolygiadau.*
>
> *(2) Rhaid i awdurdod bwyd arolygu sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal yn unol â'r rhaglen.*
>
> *(3) Wrth lunio ac adolygu ei raglen, rhaid i awdurdod bwyd roi sylw i faterion a bennir gan yr ASB ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.*

5.2 Wrth arfer ei swyddogaeth o fonitro perfformiad awdurdodau lleol, mae'r ASB yn casglu data blynyddol ar weithgarwch gorfodi mewn busnesau bwyd, gan ddefnyddio System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS). Mae'r data hwn yn cynnwys manylion nifer yr arolygiadau hylendid bwyd a raglennir a mathau eraill o ymyriadau15 a gynhaliwyd mewn busnesau bwyd.

5.3 Mae dadansoddiad o ddata LAEMS ar gyfer y cyfnodau 2014-2017 yn cadarnhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi nodi eu bod wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r ymyriadau hylendid bwyd a oedd wedi'u rhaglennu. Mewn achosion lle nad oedd hyn wedi digwydd, mae'r data'n dangos bod dull seiliedig ar risg wedi'i fabwysiadu i ymgymryd ag ymyriadau yn unol â'r Cod.

[15] Diffinnir ymyriadau fel "*gweithgareddau sydd â'r nod o fonitro, cynorthwyo a chynyddu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd o fewn sefydliad bwyd. Maent yn cynnwys "rheolaethau swyddogol" ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt".*




5.4 Er bod y data LAEMS diweddaraf wedi dangos gwelliannau cyffredinol wrth gyflwyno ymyriadau wedi'u rhaglennu ledled Cymru, nododd pum awdurdod lleol bod ymyriadau'n hwyr mewn dros 200 o sefydliadau bwyd risg is yn eu hardal. Ym mis Tachwedd 2017, ysgrifennodd yr ASB at y pum awdurdod lleol dan sylw er mwyn eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb statudol i gynnal ymyriadau hylendid bwyd yn brydlon. Er gwaethaf yr hyblygrwydd o fewn y Cod, roedd y llythyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd arolygiadau o ran sicrhau llwyddiant parhaus y Cynllun.

**ARGYMHELLIAD 3:** Bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod ymyriadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a amlinellir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).

5.5 Yn dilyn arolygiadau, mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol yn hysbysu busnesau bwyd o'u sgoriau ac yn darparu gwybodaeth benodol arall o fewn cyfnod penodol. Mae'r dull, yr amserlen a'r wybodaeth i gyd-fynd â'r hysbysiad wedi'u hamlinellu fel a ganlyn: -

*__3. (1)__ Pan fo sefydliad busnes bwyd wedi ei arolygu yn unol ag adran 2, rhaid i awdurdod bwyd asesu safonau hylendid bwyd y sefydliad a chynhyrchu sgôr ("sgôr hylendid bwyd") ar gyfer y sefydliad hwnnw sydd wedi ei sgorio yn erbyn meini prawf a osodir gan yr ASB (y "meini prawf sgorio").*

*__(3)__ Cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl arolygiad , rhaid i awdurdod bwyd anfon at weithredwr y sefydliad –*

*(a) hysbysiad ysgrifenedig am sgôr hylendid bwyd y sefydliad;*
*(b) datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y sgôr;*
*(c) sticer sgôr hylendid bwyd ar ffurf a ragnodir;*
*(d) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir.*

*__15. (1)__ Rhaid i awdurdod bwyd anfon gwybodaeth a ragnodir at weithredwyr sefydliadau busnes bwyd newydd yn ei ardal.*

*__(2)__ Rhaid i'r wybodaeth honno gael ei hanfon at weithredwr o fewn 14 o ddiwrnodau o wneud pa un bynnag o'r pethau canlynol sy'n gymwys—*

*(a) cofrestri sefydliad y gweithredwr gan yr awdurdod fwyd o dan Erthygl 6 o Reoliad (EC) 852/2004 (neu ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer cofrestru sefydliadau busnes bwyd sy'n cymryd lle'r ddarpariaeth honno), neu*

*(b) gweithredwr y sefydliad yn gwneud cais i'r awdurdod bwyd am gymeradwyaeth o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) 853/2004 (neu ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer cymeradwyo sefydliadau o'r fath sy'n cymryd lle'r ddarpariaeth honno).*

5.6 Sefydlwyd Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar ran yr ASB, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, i gydlynu proses effeithiol o weithredu'r Cynllun. Mae'r grŵp wedi darparu cyfeiriad strategol a fforwm ar gyfer trafod datblygiadau'r dyfodol.

5.7 Mae Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru wedi gweithio i ddatblygu polisiau a llythyrau templed gyda'r nod o hwyluso dull cyson ar draws Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn sicrhau bod fframwaith ar waith i helpu awdurdodau lleol gydymffurfio â gofynion hysbysu.

**ARGYMHELLIAD 4:** Bod yr ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio Sgorio Hylendid Bwyd Cymru i sicrhau llwyddiant parhaus a datblygiad y Cynllun.

5.8 Mae'r ASB wedi dechrau ar raglen archwilio â ffocws i wirio i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth sgorio hylendid bwyd a'r canllawiau statudol. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Mai 2018. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at feysydd arfer da ac unrhyw argymhellion a nodir er mwyn gwella. Pe bai'r angen yn codi, bydd llythyrau unigol hefyd yn cael eu hanfon at yr awdurdodau lleol hynny lle mae pryderon.

**ARGYMHELLIAD 5:** Bod yr ASB yn cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau ei archwiliad o weithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gan awdurdodau lleol erbyn mis Mai 2018.

5.9 Mae'r Ddeddf yn cynnwys amserlenni penodol ar gyfer awdurdodau lleol o ran hysbysu'r ASB am sgoriau sydd wedi'u dyfarnu i fusnesau bwyd:

***6.*** ***(1)*** *Rhaid i awdurdod bwyd hysbysu'r ASB am sgôr hylendid bwyd sefydliad busnes bwyd o fewn y cyfnod perthnasol.*

***(2)*** *Wrth hysbysu'r ASB rhaid i awdurdod bwyd ddarparu i'r ASB hefyd unrhyw wybodaeth bellach a ragnodir.*

***(4)*** *Yn yr adran hon, ystyr "cyfnod perthnasol" -*

*(a) os nad oes apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd, yw 49 o ddiwrnodau o'r dyddiad y bydd gweithredwr sefydliad busnes bwyd yn cael hysbysiad am y sgôr hylendid bwyd;*
*(b) os gwneir apêl, yw 28 o ddiwrnodau o ddyddiad penderfynu'r apêl.*

5.10 Mae gan yr ASB systemau cadarn ar waith i fonitro prydlondeb y data sgorio a ddarperir gan awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, mae'r ASB wedi gallu cadarnhau bod awdurdodau lleol wedi darparu'r data yn unol â'r ddeddfwriaeth. Bu rhai achlysuron prin lle'r oedd oedi wrth ddarparu gwybodaeth am sgoriau. Mewn achosion o'r fath, mae'r ASB wedi cymryd camau dilynol gyda'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth. Lle nodwyd oedi, mae'r rhain wedi'u priodoli i weithredu'r feddalwedd newydd a materion staffio.

**ARGYMHELLIAD 6:** Bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwybodaeth am sgoriau yn cael ei darparu i'r ASB yn unol â gofynion y Ddeddf.

## Pa mor gyfredol yw Sgoriau Hylendid Bwyd

5.11 Mae sgoriau cyfredol (diweddaraf) yn bwysig er mwyn cynnal hyder a hygrededd ac ymddiriedaeth defnyddwyr yn y Cynllun. Dangosodd gwaith ymchwil a gyhoeddwyd gan yr ASB yn 2014[16] bod defnyddwyr yn amheus am sgoriau a oedd yn hŷn na blwydd oed, gan deimlo na fyddai'r rhain yn adlewyrchu newidiadau o fewn busnesau bwyd.

5.12 Ym mis Tachwedd 2017, cynhaliodd yr ASB adolygiad o ddata sgoriau ar-lein gyda'r nod o sefydlu pa mor gyfredol oedd sgoriau. Dangosodd dadansoddiad o'r data bod sefydliadau bwyd 'nad oedd yn cydymffurfio i raddau helaeth (*not broadly compliant*) (sgôr o 2 neu is) wedi'u harolygu'n fwy diweddar yn gyffredinol, h.y. o fewn y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â sefydliadau a oedd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' (sgôr o 3 neu uwch). Mae hyn yn dangos bod y busnesau sy'n cydymffurfio lleiaf wedi'u blaenoriaethu i'w harolygu gan awdurdodau lleol.

5.13 Er bod rhywfaint o amrywiaeth o ran pa mor gyfredol oedd y sgoriau a ddyfarnwyd i fusnesau bwyd; roedd 46.76% wedi cael eu sgorio o fewn y 12 mis diwethaf[17], a mwy na thri chwarter, 78.06% wedi'u sgorio o fewn y 24 mis diwethaf. O ran busnesau bwyd a oedd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth', roedd 73.55% o'r rhain hefyd wedi'u sgorio o fewn y 24 mis diwethaf. Roedd y sgoriau a ddyfarnwyd i 2.71% o sefydliadau bwyd wedi'u dyfarnu 54 o fisoedd neu ragor yn ôl, er bod y mwyafrif wedi cael sgôr o 4 neu 5.

---

[16] Canfyddiadau Gwerthuso'r Cynllun 2011-2014: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/fhrs-fhis-eval2011-14.pdf

[17] Caiff amlder lleiaf arolygiadau ei bennu gan y cynllun sgorio risg ymyrryd o fewn Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). Gall amlderau arolygu amrywio o chwe mis i unwaith bob tair blynedd.

5.14 Adeg yr adolygiad, roedd gan 53 o sefydliadau bwyd ar draws Cymru sgôr hylendid bwyd o 0 (angen gwella ar frys). Ac eithrio ymyriadau a gweithgareddau gorfodi eraill a allai fod wedi digwydd yn y cyfamser, roedd y sefydliadau hyn wedi'u sgorio o fewn y 18 mis blaenorol; roedd 34 ohonynt o fewn y chwe mis blaenorol, 16 o fewn y 12 mis blaenorol a 3 o fewn y 18 mis blaenorol.

5.15 Dangosodd yr adolygiad, ar y cyfan, bod sgoriau busnesau bwyd ledled Cymru yn gymharol gyfredol. Fodd bynnag, roedd sgoriau y lleiafrif o fusnesau bwyd wedi'u cyhoeddi dros dair blynedd ynghynt. Gall hyn fod o bryder i ddefnyddwyr sy'n disgwyl i sgoriau adlewyrchu safonau hylendid cyfredol.

**ARGYMHELLIAD 7:** Bod yr ASB, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ystyried opsiynau ar gyfer rhoi sicrwydd pellach i ddefnyddwyr mewn perthynas â busnesau bwyd risg isel, a allai fod wedi bod yn destun ymyriad (ac eithrio arolygiad) ers dyfarnu'r sgôr.

## Cysondeb

5.16 Mae'n hanfodol bod swyddogion o fewn awdurdodau lleol ac ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu'r Cynllun yn gyson er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb i fusnesau bwyd ac i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr. Mae'r ASB wedi gweithio i hyrwyddo cysondeb, gan hwyluso gweithgareddau cysondeb cenedlaethol ac ariannu digwyddiadau hyfforddi.

5.17 Cynigiodd yr ASB weithgareddau cysondeb cenedlaethol yn 2015, 2016 a 2017. Roedd y rhain ar ffurf senarios ar-lein, a gofynnwyd i'r awdurdodau lleol eu hystyried cyn pennu'r sgoriau hylendid bwyd priodol yn seiliedig ar yr amgylchiadau penodol a gyflwynwyd. Mae lefelau cymryd rhan wedi bod yn uchel, sef 95%, 91% a 100% yn y drefn honno. Roedd canlyniadau'r gweithgareddau yn dangos, ar y cyfan, bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyson wrth ddyfarnu sgoriau. Mae'r ASB yn cydnabod cyfyngiadau senarios ar-lein gan fod gofyn i swyddogion ffurfio barn gyda gwybodaeth ddethol, ac

nad ydynt yn gallu gofyn am eglurhad pellach ar y materion a gyflwynir. Mae canlyniad pob un o'r gweithgareddau cysondeb cenedlaethol wedi'i nodi isod:

- Yn 2015, 5 oedd y sgôr fwriadedig ar gyfer y busnes a oedd yn rhan o'r senario. Cafodd sgôr o '5' ei dyfarnu gan 43% o'r awdurdodau lleol a gymerodd ran yng Nghymru; Dyfarnodd 47% sgôr o 4 a 10% sgôr o 3.

- Yn 2016, roedd y senario yn rhoi sicrwydd o well cysondeb wrth ddyfarnu sgoriau gydag 80% o awdurdodau lleol yn dyfarnu sgôr o 5, a 20% yn rhoi sgôr o 4. Ni ddarparwyd sgôr fwriadedig ar gyfer y senario hon.

- Yn 2017, 3 oedd y sgôr fwriadedig ar gyfer y senario. Fe wnaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru (77%) ddyfarnu sgôr o 3 neu 4. Er, roedd y 23% a oedd yn weddill wedi'u rhannu ar draws sgoriau o 1, 2 a 5. Cafodd nifer o broblemau eu cyflwyno yn y sefyllfa hon gyda'r posiblrwydd o gael dehongliadau gwahanol ar y graddau yr oedd y busnes wedi cydymffurfio.

5.18 Mae'r ASB wedi ariannu hyfforddiant cysondeb ar gyfer awdurdodau lleol dan arweiniad Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yng Nghyngor Sir Powys. Mae 11 o gyrsiau wedi'u cynnal yng Nghymru, gyda 406 o swyddogion yn cymryd rhan dros y tair blynedd diwethaf. Gan adeiladu ar y gwaith hwn ymhellach, cafodd un o'r ymarferion cysondeb a oedd yn canolbwyntio ar gigydd manwerthu, ac a oedd wedi hollti barn swyddogion, ei ddosbarthu i'r holl dimau diogelwch bwyd yng Nghymru i'w ystyried.

5.19 Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd yn ystod digwyddiadau hyfforddi cysondeb, datblygodd Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru ddogfen lywio i'w defnyddio ar draws pob awdurdod lleol i gynnig cyngor ar ddyfarnu sgoriau mewn sefyllfaoedd penodol. Cafodd y ddogfen lywio ei hadolygu pan nodwyd problemau yn dilyn ymarferion hyfforddi cysondeb.

5.20 Ym mis Mehefin a mis Rhagfyr 2017, cymerodd awdurdodau lleol ran mewn ymarferion glanhau data i unioni unrhyw anghysondebau a nodwyd yng

nghywirdeb yr wybodaeth a ddangosir ar wefan y Cynllun. O ganlyniad, mae ansawdd y data wedi gwella, gan ddiogelu hygrededd y Cynllun.

5.21 Mae Grŵp Llywio Sgoriau Hylendid Bwyd Cymru wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd. Cynhaliwyd saith cyfarfod dros y tair blynedd ddiwethaf er mwyn hyrwyddo gweithrediad cyson. At hynny, mae Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru wedi parhau i gwrdd yn chwarterol, ac mae'r Cynllun yn eitem sefydlog ar agendâu'r cyfarfodydd hyn. Mae cytuno ar ffi safonol ar gyfer arolygiadau ail-sgorio yn dangos pa mor effeithiol yw'r Panel o ran sicrhau dull cyson ar draws Cymru.

**ARGYMHELLIAD 8:** Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

# 6. Adolygu Gweithrediad y System Apelio

6.1 Mae'r Cynllun yn darparu nifer o fesurau diogelu ar gyfer busnesau bwyd, sy'n cynnwys yr hawl i weithredwr busnes apelio yn erbyn sgôr, yr 'hawl i ymateb' a'r gallu i ofyn am arolygiad ail-sgorio.

6.2 Mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas ag apeliadau wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf isod:

**5.** ***(5)*** *Caiff awdurdod bwyd gynnal arolygiad pellach o'r sefydliad er mwyn ystyried y materion a godwyd mewn apêl.*
***(6)*** *Rhaid i awdurdod bwyd benderfynu'r apêl a hysbysu gweithredwr y sefydliad a'r ASB am ei benderfyniad cyn pen 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cafwyd yr apêl.*
***(7)*** *Rhaid i'r apêl gael ei chynnal gan swyddog awdurdodedig na fu'n ymwneud ag asesu'r sgôr hylendid bwyd sy'n destun apêl.*
***(11)*** *Pan fo awdurdod bwyd yn penderfynu diwygio sgôr hylendid bwyd, wrth iddo hysbysu'r ASB am ei benderfyniad rhaid iddo anfon i'r ASB gopi o'r hysbysiad a'r datganiad y cyfeirir ato yn isadran (10).*

6.3 Canfu'r adolygiad o weithrediad y systemau apelio yn ystod y cyfnod 28 Tachwedd 2016 i 27 Tachwedd 2017:

- Cyflwynwyd cyfanswm o 100 o apeliadau ar draws 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru;
- Pennwyd canlyniadau 96 o apeliadau o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod, a phenderfyniadau am y rhai a oedd yn weddill o fewn 25 diwrnod;
- Cafodd pob apêl ei hystyried gan swyddog nad oedd yn rhan o'r broses o asesu'r sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei hapelio.

6.4 Mae'r 100 o apeliadau a gyflwynwyd yn cynrychioli 1.84% o'r 5,424 o sefydliadau bwyd a gafodd sgôr o 0 (angen gwella ar frys) i 4 (da) yn ystod y cyfnod. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys busnesau â sgôr hylendid bwyd o '5' gan na fyddai disgwyl i'r busnesau hyn apelio yn erbyn eu sgôr.

6.5 Ar ôl pennu canlyniadau'r 100 o apeliadau, arhosodd 84 o sgoriau yr un fath a chafodd 16 eu newid. O'r 16 o sgoriau a newidwyd, cafodd 15 sgôr uwch ac arweiniodd un at sgôr is.

6.6 Cafodd y mwyafrif (61) o apeliadau eu cyflwyno gan fusnesau bwyd a gafodd sgôr is na 3 (boddhaol ar y cyfan). Roedd hyn yn cynnwys:

- 5 gyda sgôr o '0' (angen gwella ar frys)
- 38 gyda sgôr o '1' (angen gwella yn sylweddol)
- 18 gyda sgôr o '2' (angen gwella)

6.7 Mewn perthynas â'r 39 o apeliadau a oedd yn weddill:

- Daeth 18 gan fusnesau bwyd gyda sgôr o '3' (boddhaol ar y cyfan)
- Daeth 21 gan fusnesau bwyd gyda sgôr o '4' (da)

**ARGYMHELLIAD 9:** Bod awdurdodau lleol yn sicrhau y caiff yr holl apeliadau eu pennu, a bod gweithredwr y busnes yn cael ei hysbysu am y canlyniad, o fewn 21 diwrnod wedi i'r apel ddod i law. Lle bydd oedi yn y broses, dylai'r ASB ganfod y rhesymau dros yr oedi ac atgoffa awdurdodau lleol o'u hymrwymiadau.

6.8 Nododd awdurdodau lleol eu bod wedi derbyn cyfanswm o 8 cwyn ffurfiol mewn perthynas â'r Cynllun yn ystod y cyfnod 28 Tachwedd 2016 i 27 Tachwedd 2017. Nid yw'n glir a oedd y cwynion hyn mewn perthynas â gweithredu'r broses apelio.

## Hawl i ymateb

6.9 Mae'r ddarpariaeth 'hawl i ymateb' wedi'i gynnwys yn adran 11 y Ddeddf fel a ganlyn: -

***11. (1)*** *Rhaid i awdurdod bwyd roi cyfle i weithredwr sefydliad busnes bwyd i roi sylwadaethau ar sgôr hylendid bwyd y sefydliad.*

***(3)*** *Rhaid i awdurdod bwyd anfon unrhyw sylwadaethau o'r fath ymlaen at yr ASB a gaiff gyhoeddi'r sylwadaethau ar ei gwefan ynghyd â'r sgôr hylendid bwyd y mae'r sylwadaethau yn ymwneud â hi.*

6.10 Yn ystod y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2016 a 27 Tachwedd 2017, daeth 16 o sylwadau 'hawl i ymateb' i law gan weithredwyr busnesau. O'r rhain, cafodd 11 eu cyhoeddi, o'i gymharu ag 15 a ddaeth i law yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynrychioli 0.12% o'r 13,888 o sefydliadau bwyd a gafodd sgôr rhwng '0' a '5' yn 2016-17.

## Ceisiadau am Arolygiadau Ailsgorio

6.11 Gall busnesau bwyd ofyn am arolygiad er mwyn ail-sgorio eu busnes o dan y Cynllun. Mae'r mesur hwn yn rhoi'r cyfle i fusnesau wella eu sgoriau cyn eu harolygiad bwriadedig nesaf, a hynny os ydynt wedi rhoi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith. Mae'r ddarpariaeth i wneud cais ail-sgorio wedi'i nodi yn y Ddeddf fel a ganlyn: -

***12.*** *Rhaid i awdurdod bwyd gydymffurfio â chais o'r fath os yw'r amodau yn is-adran (4) ac, os yw'n gymwys, yr amod yn is-adran (5) wedi eu bodloni*

***(4)*** *Yr amodau yn yr is-adran hon yw –*

*(a) bod unrhyw apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd bresennol wedi ei phenderfynu;*
*(b) bod y gweithredwr wedi hysbysu'r awdurdod bwyd am y gwelliannau a wnaed i'r safonau hylendid yn y sefydliad;*
*(c) bod yr awdurdod bwyd o'r farn ei bod yn rhesymol i ail arolygu ac ailasesu'r sefydliad gyda golwg ar y gwelliannau y dywedwyd eu bod wedi eu gwneud;*
*(d) bod y sticer sgôr hylendid bwyd cyfredol wedi ei arddangos yn y sefydliad yn unol â gofynion adran 7;*
*(e) bod y gweithredwr wedi cytuno i sicrhau y caiff awdurdod bwyd fynd yno i wneud arolygiad o'r sefydliad at ddiben yr ailsgoriad.*

***(5)*** *Yr amod yn yr is-adran hon yw bod gweithredwr y sefydliad busnes bwyd wedi talu costau rhesymol yr ailsgoriad, fel y'u penderfynwyd gan yr awdurdod bwyd yn unol ag adran 13.*

***(6)*** *Nid yw is-adran (5) yn gymwys os nad yw'r awdurdod bwyd wedi ceisio cael taliad o'r costau hynny cyn yr arolygiad.*

***(7)*** *Os yw’r amodau yn is-adran (4) ac, os yw’n gymwys, yr amod yn is-adran (5) wedi eu bodloni, rhaid i awdurdod bwyd gwblhau’r ailsgoriad heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl cael y cais.*
*(8) Os yw awdurdod bwyd yn penderfynu na ddylai fod unrhyw newid i’r sgôr hylendid bwyd gyfredol, rhaid iddo hysbysu gweithredwr y sefydliad busnes bwyd cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad cwblhau’r arolygiad.*

*(9) Os yw’r awdurdod bwyd yn penderfynu newid y sgôr hylendid bwyd, rhaid iddo, cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr arolygiad, anfon at weithredwr y sefydliad –*

*(a) hysbysiad ysgrifenedig am ei sgôr hylendid bwyd newydd;*
*(b) datganiad ysgrifenedig o’r rhesymau dros y sgôr;*
*(c) sticer sgôr hylendid bwyd newydd;*
*(d) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir.*

6.12 Mae awdurdodau lleol wedi cyfrifo a chytuno ar gostau rhesymol arolygiad ail-sgorio, sef £160 ar hyn o bryd. Mae'r ffi hon yn cael ei chymhwyso yn gyson gan awdurdodau lleol ledled Cymru.

6.13 Rhwng 28 Tachwedd 2016 a 27 Tachwedd 2017, daeth 815 o geisiadau ail-sgorio i law awdurdodau lleol, o'i gymharu ag 812 yn 2015-2016. Mae hyn yn cynrychioli 15.03% o'r 5,424 o sefydliadau bwyd oedd â sgôr rhwng '0' a '4' yn 2016-2017.

# 7. Gorfodi

7.1 Mae gan awdurdodau lleol nifer o opsiynau ar gael iddynt i sicrhau bod busnesau bwyd yn gweithredu gofynion y Cynllun. Dylid datrys problemau o ran diffyg cydymffurfio yn anffurfiol i ddechrau trwy sgyrsiau adeiladol rhwng yr awdurdod lleol a'r busnes bwyd dan sylw, yn unol â’r Cod.

7.2 Lle na chaiff achos o ddiffyg cydymffurfio ei ddatrys yn hawdd neu'n gyflym gan ddefnyddio dull anffurfiol, mae gan awdurdodau lleol y disgresiwn i roi Hysbysiad Cosb Benodedig. Mae Hysbysiad Cosb Benodedig yn rhoi'r cyfle i fusnes bwyd osgoi unrhyw gollfarn am drosedd drwy dalu cosb benodedig. Gellir rhoi'r Hysbysiadau hyn am fethu â dangos sticer sgorio dilys yn iawn, methu â darparu'r wybodaeth gywir am sgoriau ar lafar ar gais, methu â darparu'r datganiad rhagnodedig ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd ac am arddangos gwybodaeth annilys am sgoriau ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd.

7.3 Pan roddir Hysbysiad Cosb Benodedig, mae ffi o £200 yn daladwy, neu £150 os gwneir taliad o fewn 14 diwrnod. Gall awdurdodau lleol fynd ati i ddechrau cymryd camau erlyn os nad yw'r ffi yn cael ei thalu. Mae awdurdodau lleol wedi rhoi gwybod bod 81 o Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u dyfarnu yn 2015-2016, a 59 yn 2016-2017.


7.4 Pan fo methiant bwriadol neu barhaus i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, gall awdurdodau lleol ddechrau achos erlyn. Cafwyd 13 o erlyniadau gan awdurdodau lleol yn 2015-2016, a phump yn 2016-2017 am droseddau o dan y Ddeddf. Mae awdurdodau lleol wedi rhoi gwybod a ddirwyon yn amrywio o £400 i £2,900.

# 8. Effaith y Cynllun


## Cydymffurfiaeth Busnes Bwyd

8.1 Ers cyflwyno'r Cynllun, mae proffil sgoriau hylendid bwyd ledled Cymru wedi newid, gyda chynnydd yng nghyfran y busnesau sy'n ennill sgôr o 3 (boddhaol ar y cyfan), 4 (da) a 5 (da iawn). Mae hyn yn cadarnhau bod y Cynllun wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau cydymffurfio busnesau.

8.2 Yn 2013, roedd gan 45.2% o fusnesau bwyd sgôr o 5, o'i gymharu â 65.1% yn 2017. Dros yr un cyfnod, roedd gostyngiad yng nghyfran y busnesau a gafodd sgôr o 0 (angen gwella ar frys), o 0.6% i 0.2%. At hynny, gostyngodd cyfran y busnesau a gafodd sgôr o 1 (angen gwella yn sylweddol) a 2 (angen gwella) o un flwyddyn i'r llall, o 7% i 2.3% ac o 5.5% i 2.3%, yn y drefn honno.



8.3 Yn 2013, roedd 86.8% o fusnesau bwyd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' â deddfwriaeth hylendid bwyd, gan godi i 95.2% yn 2017. I'r gwrthwyneb, roedd 13.1% o fusnesau bwyd 'nad oedd yn cydymffurfio i raddau helaeth' yn 2013. Fodd bynnag, gostyngodd hyn i 4.8% yn 2017. Mae'r tabl isod yn dangos y newid yng nghyfran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio i raddau helaeth' rhwng 2013 a 2017.




8.4 Mae'r ASB wedi darparu cyllid grant i awdurdodau lleol er mwyn cynnal ymyriadau wedi'u targedu mewn sefydliadau bwyd 'nad ydynt yn 'cydymffurfio i raddau helaeth'. Mae'r arian hwn ar gael gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn nghydymffurfiaeth busnesau trwy welliannau mewn trefniadau rheoli diogelwch bwyd. Mae'r dull hwn yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae systemau rheoli diogelwch bwyd cadarn yn ei chael ar gydymffurfiaeth busnesau bwyd, a'r sgoriau dilynol.

8.5 Mae'r gweithgareddau a gynhelir gan awdurdodau lleol yn cynnwys ymweliadau hyfforddi â sefydliadau tecawe a bwytai i wella cydymffurfiaeth â mesurau rheoli croeshalogi, cyfieithu cyngor a gwybodaeth er budd busnesau lle nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf a darparu cyrsiau hyfforddi sy'n arwain at

gydnabyddiaeth cymwysterau diogelwch bwyd. Mae gwerthusiad awdurdodau lleol o'r gwaith hwn wedi dangos ei effaith gadarnhaol ar gydymffurfiaeth busnesau yn y tymor byr.

**ARGYMHELLIAD 10:** Bod yr ASB yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau gwelliannau mewn cydymffurfiaeth busnesau trwy weithgareddau ymyrryd wedi'u targedu.

8.6 Mae'r ASB wedi comisiynu nifer o brosiectau ymchwil i ystyried cyfraddau arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd mewn sefydliadau bwyd. Dangosodd gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2013[18] bod 47% o sefydliadau yn arddangos y sticer perthnasol yn gywir. Cynyddodd hyn i 84% yn 2017, gan ddangos effaith gadarnhaol y cynllun gorfodol.

8.7 Yn ogystal, roedd gwaith ymchwil 2017[19] yn ystyried i ba raddau y mae sefydliadau sy'n gwerthu bwyd tecawê yn cydymffurfio â'r gofyniad i gynnwys datganiad dwyieithog ar eu deunyddiau cyhoeddusrwydd, gan gyfeirio defnyddwyr at wefan y Cynllun. Dangosodd yr ymchwil mai dim ond 8% o fusnesau bwyd perthnasol oedd yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

8.8 Mae'r lefel gydymffurfio isel hon yn destun pryder, ac mae angen ymchwilio i'r mater ymhellach. Fodd bynnag, mae'r ASB yn cydnabod cyfyngiadau'r ymchwil, yn enwedig mewn perthynas â maint y sampl (40 o sefydliadau bwyd).

**ARGYMHELLIAD 11:** Bod yr ASB yn comisiynu gwaith ymchwil pellach i benderfynu ar lefel gydymffurfio busnesau bwyd â gofynion Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016.

[18] CSHB a Chynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd: Canfyddiadau Gwerthuso 2011-2014: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/fhrs-fhis-eval2011-14.pdf

[19] Gwaith ymchwil heb ei gyhoeddi

## Adroddiad Gwyddoniaeth y Prif Gynghorydd Gwyddonol

8.9 Yn ei seithfed Adroddiad Gwyddonol[20], aeth Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB ati i ystyried effaith y Cynllun ar ddiogelwch bwyd, gan ganolbwyntio ar arddangos gorfodol. Mae dadansoddiad ystadegol wedi dangos bod sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio i raddau helaeth' yn debygol o fod â chyfran lai o samplau microbiolegol anfoddhaol, o'i gymharu â sefydliadau 'nad ydynt yn cydymffurfio i raddau helaeth'. Yn yr un modd, mae sefydliadau gyda sgôr o 5 yn debygol o gael cyfran lai o samplau anfoddhaol na phob sefydliad arall.

8.10 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y rôl y mae'r Cynllun wedi'i chwarae wrth roi grym i bobl, a'u helpu i ddewis bwyta mewn mannau sydd â sgoriau uwch. Ar y cyfan, mae busnesau bwyd wedi gwella eu safonau hylendid i ddenu rhagor o gwsmeriaid.

8.11 Ar ôl i arddangos sgoriau ddod yn orfodol yng Nghymru, mae cyfran y busnesau bwyd sydd â sgôr o 5 wedi cynyddu 21 pwynt canran. Hefyd, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y busnesau sy'n arddangos eu sticeri ar gyfer yr ystod o sgoriau, sydd wedi caniatáu mwy o dryloywder i ddefnyddwyr. Mae astudiaethau wedi dangos bod defnyddwyr yn dod yn fwy ymwybodol o'r Cynllun h.y. 75% yng Nghymru, a'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf cyffredin yw'r sgôr ei hun yn cael ei harddangos mewn busnes bwyd.

8.12 Daeth y Prif Gynghorydd Gwyddonol i'r casgliad bod y gwelliannau hyn yn darparu tystiolaeth gadarn bod arddangos gorfodol wedi arwain at wella a chynnal cydymffurfiaeth busnesau â diogelwch bwyd.

[20] Adroddiad Gwyddoniaeth y Prif Gynghorydd Gwyddonol, Rhifyn Saith: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/adroddiadprifwyddonydd7.pdf

# 9. Ymwybyddiaeth defnyddwyr ac agweddau busnesau

9.1 Mae’r ASB yn comisiynu ymchwil i fonitro a thracio newidiadau mewn agweddau defnyddwyr tuag at fwyd. Arolwg *Bwyd a Chi*[21] yr ASB, sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd, yw prif ddarn ymchwil yr ASB gyda defnyddwyr, ac mae’n darparu data allweddol ar wybodaeth, agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd mewn perthynas â diogelwch bwyd a materion sy'n ymwneud â bwyd. Cynhaliwyd arolwg a oedd yn cynnwys dros 400 o gyfweliadau ag unigolion 16 oed a hŷn, a chafodd ei gynnal rhwng mis Mai a mis Medi 2016 ledled Cymru. Un o themâu'r arolwg yw bwyta allan, gyda chwestiynau am ymwybyddiaeth a defnydd o'r Cynllun. Dangoswyd delweddau o'r sticeri sgorio i unigolion, a gofynnwyd iddynt a oeddent yn eu hadnabod.

9.2 Roedd y canfyddiadau yng Nghymru fel a ganlyn:

- Cynnydd o ran adnabod y Cynllun, gyda 89% o'r rhai a holwyd yn adnabod y sticeri o'i gymharu â 76% yn 2014 a 43% yn 2012.
- Cysylltiad rhwng oedran ac adnabod y Cynllun, gyda hyd at 98 o'r rhai rhwng 16 a 34 oed yn adnabod y sticeri, o'i gymharu â 62% o'r rhai 75 oed a hŷn.
- Amrywiadau mewn statws cyflogaeth yn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn ôl oed, gydag ymatebwyr sydd wedi ymddeol yn llai tebygol o adnabod y sticeri (77%) nag ymatebwyr mewn gwaith (92%).
- Ymatebwyr mewn cartrefi gyda phlant dan 16 oed yn fwy tebygol o adnabod y Cynllun na'r rheiny mewn cartrefi o oedolion yn unig (95% o'i gymharu â 87%).
- Gwahaniaeth sylweddol rhwng yr ymatebwyr yng Nghymru a'r rheiny yn Lloegr o ran adnabod y Cynllun (89% o'i gymharu ag 82%). Nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng ymatebwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

[21] Arolwg Bwyd a Chi Cylch 4 (Cymru) https://www.food.gov.uk/sites/default/files/adroddiadcymru.pdf

9.3 Dangosodd Arolwg Tracio Chwemisol yr ASB ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd[22], a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016 gan gynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â 2,100 o ymatebwyr:

- Bod 69% o ymatebwyr yn Nghymru yn ymwybodol o'r Cynllun, o'i gymharu â 50% yn Lloegr a 57% Ngogledd Iwerddon.
- Bod 90% o ymatebwyr yn Nghymru yn adnabod y sticeri sgorio, o'i gymharu â 78% yn Lloegr ac 85% yng Ngogledd Iwerddon.
- Soniodd 87% o'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'r Cynllun yng Nghymru eu bod wedi gweld sticer yn cael ei arddangos yn y 12 mis diwethaf, o'i gymharu ag 80% yn Lloegr a 92% yng Ngogledd Iwerddon.
- Dywedodd 39% o ymatebwyr yng Nghymru y byddant bendant yn seilio eu penderfyniad ar ble i fwyta yn seiliedig ar y sgôr, o'i gymharu â 38% yn Lloegr a 48% yng Ngogledd Iwerddon.

9.4 Mae'r ASB hefyd wedi bod yn asesu'r broses o arddangos sgoriau gan fusnesau bwyd ers 2011. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys siopwyr cudd ac arolwg ffôn i archwilio agweddau busnesau. Roedd hyn yn cynnwys archwilio'r rhesymau dros arddangos a pheidio ag arddangos, ac ymwybyddiaeth o'r mesurau diogelu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun.

9.5 Dangosodd gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2017 bod 86% o sefydliadau yng Nghymru yn arddangos eu sgoriau. Mae cynnydd o 16 pwynt canran i 84% wedi bod yng nghyfran y busnesau bwyd sy'n arddangos eu sticeri yn briodol h.y. mae i'w weld yn amlwg o du allan i'r sefydliad. Mae'r duedd hon yn parhau i gynyddu dros amser. Fodd bynnag, dim ond 42% o sefydliadau sydd â nifer o fynedfeydd a oedd yn arddangos eu sgoriau mewn safle amlwg ym mhob mynedfa. Hefyd, mae cynnydd sylweddol wedi bod yng nghyfran y busnesau nad ydynt yn arddangos unrhyw beth yng Nghymru, i fyny o 7% yn 2016 i 12% yn 2017. Caiff ei nodi mai'r ffactorau sy'n parhau i annog busnesau i arddangos yw'r Cynllun gorfodol (64%) a rhoi sicrwydd i gwsmeriaid (37%). Cynyddodd cyfran y busnesau a nododd eu bod yn arddangos eu sgôr gan eu bod yn falch ohoni i 28% yn 2017. Yng Nghymru,

[22] Food Hygiene Rating Scheme Biannual Public Attitudes Tracker, wave 5: https://www.food.gov.uk/sites/default/files/fhrstrackerwave5report_1.pdf


wrth gymharu sgoriau ar-lein â'r rhai a oedd yn cael eu harddangos, roedd 92% yn cyfateb, gyda'r 5% a oedd yn weddill yn dangos sgôr uwch a 3% yn dangos sgôr is.

# 10. Datblygiadau yn y Dyfodol

## Arddangos Sgoriau Ar-lein

10.1 Mae'r Cynllun yn rhoi grym i ddefnyddwyr trwy sicrhau bod gwybodaeth gywir ar safonau hylendid ar gael yn rhwydd er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus o ran ble maent yn prynu bwyd. Mae llwyddiant a hygrededd parhaus y Cynllun yn dibynnu ar y ffaith ei fod yn bodloni gofynion a disgwyliadau defnyddwyr. Yn gynyddol, mae defnyddwyr yn prynu bwyd ar-lein ac o'r herwydd, mae'n bosibl nad oes ganddynt fynediad at wybodaeth am sgôr hylendid y busnes bwyd.

10.2 Roedd gwaith ymchwil gan yr ASB yn 2017 yn ceisio adborth gan fusnesau bwyd yng Nghymru ar y cysyniad o ymestyn y gofyniad i arddangos sgoriau ar lwyfannau archebu ar-lein. Roedd y rhan fwyaf o fusnesau bwyd yn gefnogol, gyda dim ond 6% yn ymateb yn negyddol.



10.3 Gall darparu gwybodaeth am sgoriau ar lwyfannau archebu ar-lein helpu i wella safonau hylendid bwyd, hygyrchedd, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o'r Cynllun ymhellach.

**ARGYMHELLIAD 12:** Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio pa mor ymarferol fyddai cyflwyno gofyniad i ddarparu gwybodaeth am sgoriau ar lwyfannau archebu bwyd ar-lein.

## Datblygu'r wefan

10.4 Yn 2017, cynhaliodd yr ASB adolygiad o'i gwefan, ac mae bellach wedi cychwyn ar raglen ail-ddylunio i sicrhau bod y wefan yn diwallu anghenion busnesau a defnyddwyr yn briodol. Cafodd gwefan y Cynllun Sgorio yn benodol ei nodi fel rhywbeth yr oedd gofyn ei gwella a'i moderneiddio. Bydd y fersiwn newydd, a fydd yn cael ei lansio ddiwedd mis Chwefror 2018, yn gwella ymarferoldeb a hygyrchedd delweddau ar draws nifer o ddyfeisiau, gan gynnwys ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen. At hynny, bydd y teclynnau chwilio a llywio yn cael eu hoptimeiddio.

## Ymwybyddiaeth defnyddwyr

10.5 Mae'r ASB wedi lansio prosiect o'r enw '*ASB yn Esbonio*' i wella dealltwriaeth defnyddwyr o faterion polisi bwyd. Bydd yr wybodaeth ar ffurf cyfres o fideos byr a fydd yn byw ar wefan yr ASB, a byddant yn cael eu rhannu drwy'r cyfryngau cymdeithasu. Mae'r Cynllun yn un o'r prif feysydd polisi sy'n cael eu trafod, a bydd y fideo ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg o fis Ebrill 2018.

## Alergenau Bwyd

10.6 Yn y DU, mae alergenau bwyd yn effeithio ar oddeutu dwy filiwn o bobl, heb gynnwys y rhai sydd ag anoddefiad bwyd. Mae'n arbennig o bwysig bod defnyddwyr sydd ag alergedd neu anoddefiad bwyd yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am y bwyd y maent yn ei brynu ac o ran ble maent yn bwyta allan. Gall bwyta hyd yn oed y mymryn lleiaf o'r bwyd y maent yn sensitif iddo eu gwneud yn sâl iawn ac mewn rhai achosion, gall achosi adweithiau anaffylactig sy'n gallu lladd.

10.7 Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth labelu bwyd wedi arwain at welliannau sylweddol o ran darparu gwybodaeth am gynhwysion alergenaidd. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth yn ystyried y risgiau posibl a allai godi drwy groeshalogi alergenau wrth baratoi a storio bwyd. Mewn gwaith ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd gan yr ASB yn 2017, gofynnwyd i'r rheiny a oedd yn cymryd rhan beth oedden nhw'n ei ystyried y dylid ei asesu mewn arolygiad hylendid bwyd. Roedd materion fel alergenau, labelu a chyfansoddiad wedi'u cynnwys o fewn ymatebion 73% o'r rhai a holwyd.

10.8 Ar hyn o bryd, nid oes rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru asesu mesurau rheoli busnesau bwyd mewn perthynas â chroeshalogi alergenau fel rhan o arolygiad hylendid bwyd. Fodd bynnag, mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Lloegr) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Lloegr asesu pa mor effeithiol yw'r mesurau rheoli i atal croeshalogi alergenau yn ystod arolygiad hylendid bwyd. Er budd defnyddwyr yng Nghymru, a'u disgwyliadau cyfredol, dylid ymgymryd â darn o waith i archwilio sut y gellir rhoi sicrwydd pellach ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli diogelwch bwyd busnes mewn perthynas â rheoli alergenau.

**ARGYMHELLIAD 13:** Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio opsiynau ar gyfer gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn perthynas â threfniadau busnes bwyd ar gyfer rheoli alergenau.

## Gwarchodwyr Plant

10.9 Os yw gwarchodwyr plant yn darparu bwyd fel rhan o'u gweithgarwch busnes, a hynny o safle domestig neu fel arall, mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda'r awdurdod lleol perthnasol a chydymffurfio â chyfreithiau hylendid. Fodd bynnag, mae unrhyw warchodwr plant sy'n gweithredu o safle sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel annedd breifat wedi'i eithrio o'r Cynllun.

10.10 Mae Llywodraeth Cymru, yn ei rhaglen Symud Cymru Ymlaen, wedi ymrwymo i ddarparu 'Tri deg awr o ofal plant am ddim ar gyfer rhieni sy'n gweithio a chanddynt blant 3 a 4 oed am 48 wythnos y flwyddyn'. Er mwyn sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddewis darparwr sy'n gweddu i'w hanghenion orau, mae bellach yn amser priodol i ystyried a ddylai'r eithriad hwn barhau.

**ARGYMHELLIAD 14:** Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i adolygu'r eithriad presennol ar gyfer gwarchodwyr plant, a darparu argymhellion priodol i Weinidogion Cymru.

## Rheoleiddio Ein Dyfodol

10.11 Ym mis Chwefror 2016, sefydlodd yr ASB ei rhaglen, *Rheoleiddio Ein Dyfodol*, sy'n anelu at wella'r ffordd y caiff rheolaethau rheoliadol ar gyfer bwyd eu darparu, gan greu system fodern, gwydn a chadarn sy'n gymesur ac yn seiliedig ar risg. Mae'r ASB yn cydnabod y gallai unrhyw newidiadau i'r gyfundrefn reoleiddio gyfredol effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

10.12 Ym mis Rhagfyr 2016, datblygodd Llywodraeth Cymru ddatganiad sefyllfa ar y rhaglen, a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru, yn amlinellu'r gofynion y dylai'r ASB eu hystyried "wrth ddiwygio'r system reoleiddio mewn ffordd sy'n briodol i anghenion Cymru". Sefydlwyd gweithgor ar gais Gweinidogion Cymru

i roi sicrwydd bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried o fewn rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, yn unol â'r datganiad sefyllfa.

10.13 Mae'r ASB yn cydnabod bod derbynioldeb unrhyw newidiadau arfaethedig i fecanwaith sylfaenol y Cynllun yn dibynnu ar gadernid y dystiolaeth y gellid ei ystyried wrth bennu sgoriau. Bydd unrhyw oblygiadau posibl ar weithrediad y Cynllun yn cael eu hystyried yn ofalus, a byddant yn cael eu trafod â Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol ar y cyfle cyntaf posibl. Er nad oes unrhyw gynigion wedi'u datblygu i newid y Cynllun yng Nghymru, y model presennol o fewn rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yw y bydd pob busnes newydd yn destun rheolaeth lawn gan awdurdodau lleol, hyd nes eu bod wedi dangos cydymffurfiaeth lawn â gofynion diogelwch bwyd.

# 11. Casgliadau

11.1 Mae'r Cynllun yn parhau i fod yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth o safonau hylendid bwyd, gan ddarparu manteision clir i ddefnyddwyr trwy sicrhau rhagor o dryloywder a'u galluogi i wneud dewisiadau gwybodus o ran ble maent yn bwyta ac yn siopa am fwyd. Mae'r Cynllun wedi cymell busnesau bwyd i wella cydymffurfiaeth â chyfraith diogelwch bwyd, gan helpu i leihau'r risgiau i ddefnyddwyr o salwch a gludir gan fwyd.

11.2 Mae datblygiadau i'r Cynllun ers mis Tachwedd 2014 wedi gwella mynediad defnyddwyr at wybodaeth am sgoriau cyn archebu bwyd, ac wedi galluogi busnesau bwyd sy'n cyflenwi busnesau bwyd eraill i ddefnyddio, ac elwa ar, wybodaeth am sgoriau. Mae llwyddiant a hygrededd parhaus y Cynllun yn dibynnu ar gadw'n gyfredol â datblygiadau technolegol ac addasu i newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddio.

11.3 Mae'r ASB yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau yn effeithiol mewn perthynas â'r Cynllun, gan ddarparu gwybodaeth am sgoriau ar ei gwefan, hyrwyddo cysondeb a chodi ymwybyddiaeth o'r Cynllun yn effeithiol i fusnesau a defnyddwyr.

11.4 Mae canfyddiadau ymchwil yn rhoi tystiolaeth, ers cyflwyno'r Cynllun, bod cydnabyddiaeth ymysg defnyddwyr wedi parhau i gynyddu, o 43% yn 2012 i 89% yn 2017. Mae cyfraddau arddangos busnesau bwyd hefyd wedi cynyddu, gydag 84% o sefydliadau yn arddangos eu sgoriau fel eu bod yn weladwy o'r tu allan yn 2017, o'i gymharu â 21% yn 2012.

11.5 Mae'n ymddangos bod ymdrechion yr ASB ac awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth â busnesau bwyd ar y mesurau diogelu sydd ar gael iddynt wedi bod yn effeithiol. Mae cyfran y busnesau bwyd wedi defnyddio'r broses apelio a'r hawl i ymateb dros y tair blynedd ddiwethaf.

11.6 Mae awdurdodau lleol wedi cydweithio i sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau y caiff sgoriau eu dyfarnu'n gyson. Mae'r ASB yn ddiolchgar am eu hymdrechion i helpu i sicrhau cadernid a gwydnwch y Cynllun. Mae cysondeb wrth ddyfarnu sgoriau o dan y Cynllun yn allweddol i'w lwyddiant ac yn sicrhau tryloywder, tegwch a chydraddoldeb i fusnesau. Ni ellir tanbrisio'r her y mae hyn yn ei gyflwyno, a dylai pob un o'r rhanddeiliaid perthnasol gefnogi'r gwaith parhaus yn y maes hwn.

11.7 Mae cyfran y busnesau bwyd sydd â'r sgôr hylendid bwyd uchaf yng Nghymru ar ei uchaf erioed. Mae hwn yn rheswm i ddathlu, a dylid cydnabod ymdrechion y sector bwyd yng Nghymru.

11.8 Mae nifer o awgrymiadau ar gyfer datblygu'r Cynllun yng Nghymru yn y dyfodol wedi codi o'r adolygiad hwn, a byddwn yn ymchwilio i'r rhain ymhellach. Gan adeiladu ar y llwyddiant yng Nghymru, mae'r ASB wedi ymrwymo i ddilyn cynllun statudol yn Lloegr. Mae'r cynlluniau ar gyfer gwneud hynny yn cael eu halinio â rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yr ASB, sy'n adolygu'r modd y mae busnesau bwyd yn cael eu rheoleiddio. Bydd yr adolygiad hwn yn cyfrannu tuag at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer newid yn Lloegr.

11.9 Mae awdurdodau lleol yn hynod ymrwymedig i gynnal y Cynllun ac yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gredadwy, yn gyfredol ac yn deg i bob busnes bwyd yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn cyflwyno'r cynllun yn unol â gofynion a chanllawiau cyfreithiol, er gwaethaf pwysau ar adnoddau. Mae angen ystyried cynaliadwyedd y Cynllun yn ofalus, a hynny yn wyneb gostyngiad yn adnoddau awdurdodau lleol. Bydd yr ASB yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i archwilio sut y gellir sicrhau dyfodol y Cynllun.

## 12. Argymhellion

12.1 Mae'r adolygiad wedi nodi'r argymhellion canlynol o ran gweithrediad parhaus y Cynllun yng Nghymru.

**ARGYMHELLIAD 1: Diwygio Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 i adlewyrchu newidiadau i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.**

**ARGYMHELLIAD 2: Bod yr ASB yn gwerthuso effaith y diwygiad i'r Cynllun a gyflwynwyd gan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mewn perthynas â chadw derbynebau Hysbysiadau Cosb Benodedig, ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn.**

**ARGYMHELLIAD 3: Bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod ymyriadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a amlinellir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).**

**ARGYMHELLIAD 4: Bod yr ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio Sgorio Hylendid Bwyd Cymru i sicrhau llwyddiant parhaus a datblygiad y Cynllun.**

**ARGYMHELLIAD 5: Bod yr ASB yn cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau ei archwiliad o weithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gan awdurdodau lleol erbyn mis Mai 2018.**

**ARGYMHELLIAD 6: Bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwybodaeth am sgoriau yn cael ei darparu i'r ASB yn unol â gofynion y Ddeddf.**

**ARGYMHELLIAD 7: Bod yr ASB, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ystyried opsiynau ar gyfer rhoi sicrwydd pellach i ddefnyddwyr mewn perthynas â busnesau bwyd risg isel, a allai fod wedi bod yn destun ymyriad (ac eithrio arolygiad) ers dyfarnu'r sgôr.**

**ARGYMHELLIAD 8: Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.**

**ARGYMHELLIAD 9: Bod awdurdodau lleol yn sicrhau y caiff yr holl apeliadau eu pennu, a bod gweithredwr y busnes yn cael ei hysbysu am y canlyniad, o fewn 21 diwrnod wedi i'r apel ddod i law. Lle bydd oedi yn y broses, dylai'r ASB ganfod y rhesymau dros yr oedi ac atgoffa awdurdodau lleol o'u hymrwymiadau.**

**ARGYMHELLIAD 10: Bod yr ASB yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau gwelliannau mewn cydymffurfiaeth busnesau trwy weithgareddau ymyrryd wedi'u targedu.**

**ARGYMHELLIAD 11: Bod yr ASB yn comisiynu gwaith ymchwil pellach i benderfynu ar lefel gydymffurfio busnesau bwyd â gofynion Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016.**

**ARGYMHELLIAD 12: Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio pa mor ymarferol fyddai cyflwyno gofyniad i ddarparu gwybodaeth am sgoriau ar lwyfannau archebu bwyd ar-lein.**

**ARGYMHELLIAD 13: Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio opsiynau ar gyfer gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn perthynas â threfniadau busnes bwyd ar gyfer rheoli alergenau.**

**ARGYMHELLIAD 14: Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i adolygu'r eithriad presennol ar gyfer gwarchodwyr plant, a darparu argymhellion priodol i Weinidogion Cymru.**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am yr adroddiad hwn at:

**Daniel Morelli**
**Pennaeth Cefnogi ac Archwilio Awdurdodau Lleol**
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru
Llawr 11, Tŷ Southgate
Wood Street, Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 02920 678902
E-bost: daniel.morelli@food.gov.uk

# Atodiad 1: Camau mewn Ymateb i Argymhellion o Adolygiadau Cynharach

| Argymhelliad | Camau gweithredu | Statws |
|---|---|---|
| **Gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithredu'r System Apeliadau, Chwefror 2015** | | |
| Dylai awdurdodau lleol barhau i gymryd rhan mewn hyfforddiant cysondeb gyda chymorth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). | Mae materion yn ymwneud â chysondeb wedi bod yn destun trafod yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru. Cymerodd swyddogion awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phenderfynu ar sgoriau ran mewn ymarferion hyfforddi cysondeb ar-lein yr ASB yn 2015. Yn 2015, ariannodd yr ASB raglen hyfforddi cysondeb wyneb yn wyneb gyda phedwar cwrs, gyda mwy na 140 o swyddogion o bob rhan o Gymru yn cymryd rhan. | **Wedi'i gwblhau** |
| Argymhellir bod yr ystadegau o fewn yr adroddiad hwn yn cael eu diweddaru mewn perthynas â mudo, sgoriau a roddir, ceisiadau am arolygiadau ail-sgorio ac apeliadau o fewn tri mis i 28 Mai 2015. | Gosodwyd Adroddiad Diweddaru ar Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Awst 2015.<br><br>https://www.food.gov.uk/sites/default/files/FHRS%20Blwyddyn%201%20Diweddariad%20ar%20yr%20Adroddiad%20Terfynol.pdf | **Wedi'i gwblhau** |
| Mae'r ASB yn ystyried gofynion Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) mewn perthynas â'r dull o reoli ymyriadau mewn sefydliadau bwyd risg isel | Mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a chanllawiau statudol yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar baratoi ac adolygu rhaglenni arolygu, gan gynnwys mewn sefydliadau bwyd risg isel. Mae'r ASB wedi cychwyn rhaglen archwilio â ffocws a fydd yn ystyried dulliau arolygu awdurdodau lleol mewn sefydliadau risg isel. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Mai 2018. | **Wedi'i gwblhau** |
| Mae'r ASB ac awdurdodau lleol yn ystyried effaith y | At ei gilydd, mae awdurdodau lleol wedi dangos gwelliannau wrth gynnal arolygiadau a raglennir, gan fabwysiadu dull seiliedig ar risg. Mae'r ASB yn monitro perfformiad awdurdodau lleol yn rheolaidd, ac wedi cymryd camau priodol i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau statudol lle bo angen. | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| newidiadau i ba mor aml y caiff arolygiadau eu cynnal. | | |
| Dylai awdurdodau lleol a'r ASB annog a chefnogi gweithredwyr busnesau bwyd ymhellach i ddefnyddio'u "hawl i ymateb". | Mae gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd ar y mesurau diogelu sydd ar gael o fewn y Cynllun, gan gynnwys yr 'hawl i ymateb' wedi'i chynnwys mewn adroddiadau arolygu a gyhoeddir yn dilyn arolygiadau. | **Wedi'i gwblhau** |
| **Argymhelliad** | **Camau gweithredu** | **Statws** |
| Mae'r system apelio bresennol yn parhau ac yn cael ei hadolygu ymhellach gan yr ASB ymhen 12 mis, yn unol â'r Ddeddf. | Adolygwyd gweithrediad y system apeliadau ymhellach ar gyfer y cyfnod mis Tachwedd 2014 i fis Tachwedd 2015, a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2016.<br><br>http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10597/gen-ld10597-w.pdf | **Wedi'i gwblhau** |
| Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob busnes yn ymwybodol o'r gofyniad i arddangos y sticer statudol, hyd yn oed pan nad yw'r sgôr wedi newid ers y cynllun anstatudol. | Mae templedi llythyrau ar gyfer hysbysu gweithredwyr busnesau bwyd o'u sgoriau yn cynnwys gwybodaeth am y gofyniad i gael gwared ar sticeri sgorio annilys ac i arddangos sticeri sgorio dilys. | **Wedi'i gwblhau** |
| Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod busnesau yn cael gwybod bod angen tynnu unrhyw sticeri anstatudol i lawr, a'u bod yn ymwybodol o hyn. | Mae templedi llythyrau ar gyfer hysbysu gweithredwyr busnesau bwyd o'u sgoriau yn cynnwys gwybodaeth am y gofyniad i gael gwared ar sticeri sgorio annilys ac i arddangos sticeri sgorio dilys. | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| Dylai awdurdodau lleol ystyried ymestyn eu dull gweithredu i gynnwys monitro'r broses o arddangos sticeri, a defnyddio dull gorfodi cymesur i sicrhau bod busnesau, yn arbennig y rheiny sydd â sgôr o 0, 1 a 2, yn arddangos eu sticeri statudol. | Mae tystiolaeth bod awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull graddedig o orfodi, gan gynnwys cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig a dwyn erlyniadau am beidio â chydymffurfio.<br><br>Mae'r ASB wedi cychwyn rhaglen archwilio â ffocws a fydd yn ystyried dulliau gorfodi awdurdodau lleol. Bydd adroddiad yn nodi'r canfyddiadau yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2018. | **Wedi'i gwblhau** |
| **Adolygu Gweithrediad y System Apelio, Chwefror 2016** | | |
| Bod y system bresennol sydd ar waith i alluogi busnesau i apelio yn erbyn eu sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru yn parhau ac yn cael ei hadolygu mewn 12 mis, yn unol â'r Ddeddf. | Adolygwyd gweithrediad y system apeliadau ymhellach ar gyfer y cyfnod mis Tachwedd 2015 i fis Tachwedd 2016, a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2017.<br><br>http://www.assembly.wales/laid%20documents/agr-ld10952/agr-ld10952-w.pdf | **Wedi'i gwblhau** |
| **Argymhelliad** | **Camau gweithredu** | **Statws** |
| Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob swyddog sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb | Mae materion yn ymwneud â chysondeb yn parhau i fod yn destun trafod cyson yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru. Caiff materion cysondeb hefyd eu trafod gan swyddogion awdurdodau lleol mewn cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd cyswllt rhanbarthol, ac yng nghyfarfodydd Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan a thrwy gysylltiad uniongyrchol â staff o dîm Cefnogi Awdurdodau Lleol yr ASB.<br><br>Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd rhaglen hyfforddiant cysondeb ar gyfer swyddogion ledled Cymru, a ariannwyd gan yr ASB. Roedd y rhaglen yn cynnwys chwe gweithdy, a chymerodd 215 o swyddogion ran. Mae'r cyrsiau wedi cynnwys nifer o wahanol senarios ac mae'r gweithdai hyn wedi mynd i'r afael â gwahanol fathau o fusnesau bwyd, oll yn cydymffurfio i wahanol raddau â deddfwriaeth hylendid bwyd, a phenderfynu ar apeliadau. Hefyd, cymerodd swyddogion ran mewn ymarfer cysondeb cenedlaethol ar-lein a hwyluswyd gan yr ASB. | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| gan gynnwys penderfynu ar apeliadau. | Mae Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru wedi datblygu dogfen lywio sy'n cynnig cyngor a dyfarnu sgoriau mewn sefyllfaoedd penodol. Adolygwyd y ddogfen lywio i fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd yn dilyn ymarferion hyfforddi cysondeb. | |
| Dylai awdurdodau lleol a'r ASB gydweithio er mwyn arwain gweithredwyr busnesau bwyd at wybodaeth berthnasol yn fwy effeithiol o ran y mesurau diogelu sydd ar gael iddynt os nad ydynt yn fodlon â'r sgoriau hylendid bwyd a roddwyd i'w busnesau. Dylai hyn gynnwys manylion y broses apelio. | Aeth Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru ati i ddiwygio'r llythyr hysbysu templed safonol i gynnwys gwybodaeth gliriach am y mesurau diogelu, gan gynnwys apeliadau.<br><br>Mae'r ASB wedi llunio taflen wybodaeth i fusnesau "Egluro'r Mesurau Diogelu". Caiff awdurdodau lleol eu hannog i'w defnyddio wrth gyfathrebu a rhyngweithio â busnesau bwyd. | **Wedi'i gwblhau** |
| **Adolygu Gweithrediad y System Apelio, Chwefror 2017** | | |
| Bod y system bresennol sydd ar waith i alluogi busnesau i apelio yn erbyn eu sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru yn parhau ac yn cael ei hadolygu mewn 12 mis, yn unol â'r Ddeddf. | Adolygwyd gweithrediad y system apelio ymhellach ar gyfer y cyfnod mis Tachwedd 2016 i fis Tachwedd 2017 ac mae disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar 28 Chwefror 2018. | **Wedi'i gwblhau** |
| **Argymhelliad** | **Camau gweithredu** | **Statws** |
| Dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff pob apêl ei phennu o fewn 21 | Mae'r ASB wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol hynny a nodwyd yn adolygiad 2015-16 i'w hatgoffa o'u rhwymedigaeth i bennu apeliadau, ac i hysbysu gweithredwr y busnes a'r ASB o'i benderfyniad, o fewn 21 diwrnod wedi i'r apêl ddod i law. | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| diwrnod wedi iddynt ddod i law a'u bod yn rhoi gwybod i weithredwyr busnesau bwyd a'r ASB o fewn y cyfnod hwn hefyd. Lle bydd oedi wedi bod yn y broses, dylai'r ASB ganfod y rhesymau dros yr oedi ac atgoffa awdurdodau lleol o'u hymrwymiadau. | Mae'r canllawiau statudol yn nodi rhwymedigaethau awdurdodau lleol yn glir ac mae'r ASB yn adolygu gwybodaeth apeliadau fel mater o drefn er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion systematig yn cael eu nodi. | |
| Dylai awdurdodau lleol barhau i sicrhau bod pob swyddog sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n hyrwyddo cysondeb, gan gynnwys pennu apeliadau. Dylai'r ASB barhau i gefnogi awdurdodau lleol wrth gynnal y gweithgarwch hwn. | Mae materion yn ymwneud â chysondeb yn parhau i fod yn destun trafod cyson yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru. Caiff materion cysondeb hefyd eu trafod gan swyddogion awdurdodau lleol mewn cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd cyswllt rhanbarthol, ac yng nghyfarfodydd Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan a thrwy gysylltiad uniongyrchol â staff o dîm Cefnogi Awdurdodau Lleol yr ASB.<br><br>Hwylusodd yr ASB trydydd ymarfer cysondeb cenedlaethol ar-lein, ac fe gymerodd pob awdurdod lleol yng Nghymru ran.<br><br>Yn 2017, cynhaliwyd gweithdy hyfforddi cysondeb Cymru gyfan, a ariannwyd gan yr ASB. At hynny, cafodd ymarfer cysondeb a oedd yn canolbwyntio ar gigydd manwerthu, a oedd wedi arwain at gryn drafod, ei gyflwyno drwy Banel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru, i'r holl dimau diogelwch bwyd i'w ystyried.<br><br>Mae Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru wedi adolygu a diweddaru'r ddogfen lywio ar gysondeb i sicrhau bod swyddogion yn parhau i gael eu cefnogi wrth fabwysiadu dull cyson. | **Wedi'i gwblhau** |
| Dylai awdurdodau lleol a'r ASB barhau i weithio ar y cyd i godi ymwybyddiaeth gweithredwyr busnes bwyd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, gan | Darperir gwybodaeth i weithredwyr busnesau bwyd ar y 'mesurau diogelwch' sydd ar gael o fewn y Cynllun, gan gynnwys yr 'hawl i ymateb', gydag adroddiadau a gyhoeddir yn dilyn arolygiadau.<br><br>Mae'r ASB wedi cynhyrchu taflen "Mae'n dod yn haws adnabod hylendid bwyd da yng Nghymru" i helpu awdurdodau lleol i gyfathrebu'r wybodaeth hon i fusnesau bwyd.<br>https://www.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/welsh/taflen-busnesau.pdf | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| gynnwys sut y pennir sgoriau, y broses apelio, a'r hawl i ymateb. Dylid ystyried y modd y mae cyfathrebu â gweithredwyr busnesau bwyd nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. | | |

| Allweddol | |
|---|---|
| Wedi'i gwblhau | |
| Parhaus | |
| Heb ei gyflawni | |